# Nodiadau i Athrawon: Nadolig Plentyn yng Nghymru

## Gwers 1

**Amcanion Dysgu:**

- Bydd y dysgwyr yn trafod eu hatgofion eu hunain am y Nadolig;
- Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu am atgof o'u dewis.

**Cysylltiad â'r FfLlRh - Ysgrifennu**
**Trefnu syniadau a gwybodaeth**

*Ystyr, dibenion, darllenwyr

Bl7:

- cynllunio gwaith ysgrifennu gan wneud penderfyniadau ynglŷn â'r ffyrdd gorau o gyflwyno cynnwys i greu effaith.

Bl8:

- wrth gynllunio gwaith ysgrifennu, gwneud dewisiadau ynglŷn â'r cynnwys, strwythur, iaith, cyflwyniad sy'n addas at y diben.

Bl9:

- cynllunio mewn modd priodol i ddatblygu ysgrifennu at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol .

**Trefn a awgrymir:**

- Trafodwch â'r dosbarth beth yw ystyr y term 'ansoddair'.
- Y dosbarth yn gwneud rhestr o 10 ansoddair o leiaf sy'n gysylltiedig â'u hatgofion am y Nadolig.
- Y dysgwyr yn gwneud tasg ysgrifennu 'oer' (diben hyn yw asesu ansawdd ysgrifennu disgrifiadol y dysgwyr cyn ac ar ôl addysgu'r uned er mwyn gweld sut mae eu gwaith yn gwella)

# Gwers 2

**Amcanion Dysgu:**

- Bydd gan y dysgwyr ddealltwriaeth well o nodweddion allweddol ysgrifennu disgrifiadol;
- Bydd y dysgwyr yn anodi darn allan o 'Nadolig Plentyn yng Nghymru'.

**Cysylltiad â'r FfLlRh - Darllen**
**Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth**

*Strategaethau darllen

Bl7-9:

- defnyddio ystod o strategaethau, *e.e. anodi*, i gip-ddarllen testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl.

**Trefn a awgrymir:**

- Dechreuwch gyda thrafodaeth ddosbarth am nodweddion allweddol darn o ysgrifennu disgrifiadol da. (Rhannwch hyn ar y bwrdd)

- Dylai'r dysgwyr lenwi Taflen Waith 1 gan edrych ar nodweddion a dibenion ysgrifennu disgrifiadol. (Trafodwch y daflen fel dosbarth).

- Darllenwch Daflen Waith 2 a dywedwch wrth y dysgwyr am ei chwblhau, gan dynnu sylw at y nodweddion sydd wedi'u cynnwys yn y darn allan o 'Nadolig Plentyn yng Nghymru'.

# Gwers 3

### Amcanion Dysgu:

- Bydd y dysgwyr yn rhannu eu hatgofion am y Nadolig;
- Bydd y dysgwyr yn gosod eu syniadau ar ffurf bwrdd stori.

### Cysylltiad â'r FfLlRh - Llafaredd
### Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

*Siarad

Bl7:
- cyflwyno pynciau a syniadau'n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr.

Bl8:
- cyflwyno pynciau a syniadau'n gydlynus, gan ddefnyddio technegau'n effeithiol.

Bl9:
- cyflwyno syniadau a materion yn llawn argyhoeddiad gan ddefnyddio amryw o dechnegau i greu effaith.

**Trefn a awgrymir:**

- Pob dysgwr yn nodi ychydig eiriau sy'n gysylltiedig ag atgof Nadolig penodol ar gerdyn, e.e. anrheg siomedig; eira trwm; llosgi'r twrci. Gwnewch yn siŵr fod y dysgwyr yn gwybod y dylen nhw ddewis atgof na fydd gwahaniaeth ganddynt ei rannu â'r dosbarth neu'r grŵp. Dylai pob cerdyn gael ei roi mewn blwch.

- Pob dysgwr yn rhannu ei atgof wrth iddo gael ei ddewis gan yr athro.

- Yr athro'n trafod syniad y blwch atgofion fel y bydd gan y dysgwyr ddealltwriaeth well o syniad Dylan Thomas, sy'n rhoi ei law yn yr eira a thynnu atgof allan).

- Y dysgwyr yn cwblhau Taflen Waith 3 (Tasg Creu Bwrdd Stori).

# Gwers 4

### Amcanion Dysgu

- Bydd y dysgwyr yn darllen y darn 'Postmyn ac Eira';
- Bydd y dysgwyr yn edrych ar y delweddau a ddefnyddir yn y darn hwn.

### Cysylltiad â'r FfLlRh - Darllen
### Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth

*Strategaethau darllen

Bl7-9:

- defnyddio ystod o strategaethau, *e.e. darllen agos*, i gip-ddarllen testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl.

### Trefn a awgrymir:

- Pob dysgwr yn cwblhau Taflen Waith 4 lle mae gofyn adnabod math o ddelwedd a thynnu llun delwedd.

# Gwers 5

### Amcanion Dysgu:

- Bydd y dysgwyr yn ailysgrifennu am atgof o'u dewis.
- Bydd y dysgwyr yn hunanasesu eu gwaith.

### Cysylltiad â'r FfLlRh - Ysgrifennu
### Trefnu syniadau a gwybodaeth

*Ystyr, dibenion, darllenwyr

Bl7:

- cynllunio gwaith ysgrifennu gan wneud penderfyniadau ynglŷn â'r ffyrdd gorau o gyflwyno cynnwys i greu effaith.

Bl8:

- wrth gynllunio gwaith ysgrifennu, gwneud dewisiadau ynglŷn â'r cynnwys, strwythur, iaith, cyflwyniad sy'n addas at y diben.

Bl9:

- cynllunio mewn modd priodol i ddatblygu ysgrifennu at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol .

## Trefn a awgrymir:

- Y dysgwyr yn ailysgrifennu eu hatgof gwyliau a defnyddio'r rhestr wirio a ddarparwyd.

- Ar ôl ei cwblhau’r dasg, dylai'r dysgwyr gwblhau'r hunanasesiad.